



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Crynodeb o'r ymatebion i'r  
Ymgynghoriad ar ddiweddaru  
Cynllun Rheoli Basn Afon  
Dyfrdwy a Gorllewin Cymru

Gorffennaf 2015

## Cynnwys

1 Cefndir .....	3
Ymgynghoriad ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft.....	3
Ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli Basn Afon – Hyrwyddo ac ymgysylltu .....	4
2. Crynodeb o'r Ymatebion a'r Prif Themâu.....	5
2.1 Cwestiynau Ymgynghoriad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol .....	19
2.2 Themâu Troswaol.....	20
3 Y Camau Nesaf .....	26
Atodiad 1 – Cyfarfodydd a Gweithdai .....	27
Atodiad 2 – Rhestr ymatebwyr .....	32

## 1 Cefndir

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Awdurdod Cymwys i roi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar waith yng Nghymru. Mae gennym gyfrifoldeb i lunio'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMPs – *River Basin Management Plans*) gan weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn sefydlu ffyrdd newydd, a gwell ffyrdd, o amddiffyn a gwella afonydd, llynnoedd, dŵr daear, dŵr trosiannol a dŵr arfordirol. Mae'r WFD wedi'i seilio ar gylch cynllunio, gweithredu ac adolygu chwe blynedd, a chaiff hyn ei alw'n Gynllunio i Reoli Basn Afon.

### Ymgynghoriad ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft

Cafodd y cynlluniau rheoli basn afon cyntaf eu cyhoeddi yn 2009. Roeddent yn amlinellu'r hyn a gâi ei wneud i amddiffyn a gwella afonydd, llynnoedd, morydau, dŵr arfordirol a dŵr daear dros gyfnod o chwe blynedd hyd at 2015.

Ar 10<sup>fed</sup> Hydref 2014 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y Cynlluniau Rheoli Basn Afon terfynol drafft (Dyfrdwy a Gorllewin Cymru) am chwe mis. Fe'u cyhoeddwyd ochr yn ochr â'n hymgyngoriad ar y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd drafft, er mwyn cydgysylltu a nodi ble mae buddion ar y naill ochr a'r llall a fydd yn cyflawni mwy ar gyfer yr amgylchedd. Daeth yr ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft i ben ar 31<sup>ain</sup> Ionawr ac mae'r crynodeb o'r ddogfen ymateb wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan erbyn hyn.

Caiff y Cynlluniau Rheoli Basn Afon terfynol eu cyhoeddi ar yr 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 2015.

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn nodi cynigion manwl i wella'r amgylchedd dŵr am y chwe blynedd nesaf a'r tu hwnt. Rydym wedi gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gynhyrchu Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a byddwn yn parhau i wneud hynny gydol y cyfnod gweithredu. Rydym wedi gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wrth iddi arwain y gwaith o gynhyrchu Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren.

Mae'r cynlluniau drafft yn disgrifio'r prif faterion i'r Ardaloedd Basn Afon ac yn amlygu camau gweithredu allweddol i ddelio â nhw. Rhoddai atodiad technegol ategol a chrynodebau dalgylch ragor o fanylion am gyflwr y dyfroedd ar hyn o bryd, y camau gweithredu sy'n cael eu cynnig a'r mecanweithiau y gellir eu defnyddio i yrru'r gweithredu.

Buom yn gweithio gyda'r Paneli Cyswllt Ardal Basn Afon i ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft wedi'u diweddarau, ac i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Mae'r paneli cyswllt yn cynnwys cynrychiolwyr o fusnesau, y diwydiant dŵr, awdurdodau lleol, awdurdodau cynllunio, sefydliadau amgylcheddol, mordwyo, cyrff pysgota a chyrrff hamdden, y mae ganddynt i gyd rôl allweddol er rhoi'r cynllun ar waith.

Mae'r crynodeb hwn yn darparu trosolwg o'r ymatebion i brif themâu'r ymgynghoriad. Caiff ymatebion o'r ymgynghoriad eu defnyddio i ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon terfynol ymhellach a'u cyflawni.

## Ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli Basn Afon – Hyrwyddo ac ymgysylltu

Yng Nghymru, aethom ati i hyrwyddo'r ymgynghoriad yn y ffyrdd canlynol:

- **Gweithdai Dalgylch**

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu parhaus i ddatblygu'r ail set o Gynlluniau Rheoli Basn Afon, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfres o 16 gweithdy dalgylch ar draws Cymru. Trefnwyd gweithdy Ucheldiroedd Hafren ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Trefnwyd gweithdy Gwy gan Sefydliad Gwy ac Wysg ac fe drefnwyd tri gweithdy gan Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru. Seiliwyd y gweithdai ar y dalgylchoedd rheoli a nodwyd yn ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau<sup>1</sup> ac roeddent yn help inni ystyried gyda'n partneriaid sut y gallwn weithio gyda'n gilydd ar raddfa leol. Ffrwyth y gweithdai oedd y Crynodebau Dalgylch ac roeddent yn ategu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft. Bwriadwyd y crynodebau fel arweiniad ymarferol i helpu i roi camau gweithredu a phartneriaethau wedi'u targedu'n lleol ar waith.

- **Y Wefan**

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru ar ein gwefan. Asiantaeth yr Amgylchedd oedd yn arwain Ymgynghoriad Hafren a chafodd dolen at wefan Asiantaeth yr Amgylchedd ei chynnwys ar ein gwefan ni.

- **Ebostio at Randdeiliaid**

Ar ddechrau'r ymgynghoriad, anfonwyd ebost at 658 o randdeiliaid o bob sector yn ogystal ag unigolion a'r rhai a ddaeth i'r 16 gweithdy dalgylch yn 2014. Cyraeddasom 115 yn fwy o randdeiliaid nag a wnaethom gyda ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau yn 2013, o ganlyniad i'r gweithdai dalgylch a hefyd geisiadau i ychwanegu enwau at ein rhestr gylchredeg.

- **Cyfryngau Cymdeithasol**

Buom yn trydar drwy gyfryngau cymdeithasol. Amcangyfrifir bod 4261 o ddilynwyr wedi darllen y trydariadau.

- **Hysbysebion Statudol**

Rhoddyd hysbysebion yn y Western Mail a'r Daily Post sydd gyda'i gilydd yn gwasanaethu dros 50,000 o bobl o fewn ardaloedd basn afon Cymru.

- **Paneli Cyswllt**

Mae'r Paneli Cyswllt wedi ein cefnogi drwy gyfrannu tuag at ddatblygu'r ymgynghoriad a hyrwyddo'r ymgynghoriad i'w rhwydweithiau.

- **Cyfarfodydd i sectorau penodol**

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo a'i rannu mewn 62 o gyfarfodydd/gweithdai sector cenedlaethol a lleol ar draws Cymru. Roedd 16 o'r rhain yn gyfarfodydd cenedlaethol. Ymysg y digwyddiadau roedd y Gynhadledd Llynnoedd, Fforum Ynni'r Deyrnas Unedig, Fforum Rheoli Tir Cymru, Gweithdy Cyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol, y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, Fforwm Arfordirol Sir Benfro, y Gynhadledd Dyfroedd Mwynfeydd, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor, Fforwm

---

<sup>1</sup> Dogfen ymgynghorol Cyfoeth Naturiol Cymru 'Heriau a Dewisiadau' 2014

Diwydiant Dŵr Cymru, Grŵp Fforwm Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, digwyddiad Cyswllt Masnach yn ogystal â grwpiau pysgodfeydd lleol ac ymddiriedolaethau natur. Daeth cyfanswm o 1,082 o bobl i'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau. Mae manylion pellach ynghlwm yn Atodiad 1.

- **Rhwydweithiau presennol**

Defnyddio rhwydweithiau presennol ar lefel Cymru gyfan a lefel lleol – yn fewnol ac allanol.

- **Diweddariad Dyfroedd Byw i Gymru**

Dyma ddiweddariad ein cylchlythyr allanol sy'n cael ei ddarparu i'r rhanddeiliaid uchod. Mae'r diweddariad yn adrodd hanes y grwpiau/sefydliadau hynny sy'n cyflawni gwelliannau i'r amgylchedd dŵr.

## 2. Crynodeb o'r Ymatebion a'r Prif Themâu


Yng Nghymru, o'r 100 ymateb a ddaeth i law, roedd pump ar lefel Cymru gyfan, 29 am Ardal Basn Afon Dyfrdwy a 66 am Orllewin Cymru. Bydd yr ymatebion yn ymwneud â rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren yn rhan o'r ddogfen ymateb a gynhyrchir gan Asiantaeth yr Amgylchedd mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwelir rhestr o'r rhai a ymatebodd yn Atodiad 2.

Mae'r ymatebwyr wedi cael eu grwpio i sectorau;


- Academia
- Amaethyddiaeth a Rheoli Tir Gwledig
- Genweirio a Physgodfeydd
- Busnes a Diwydiant
- Coedwigaeth
- Awdurdodau Lleol
- Cloddio a Chwarela
- Mordwyo
- Cadwraeth a Hamdden
- Diwydiant Dŵr
- Unigolion

Mae'r ffigurau isod yn dangos cyfran yr ymatebion a ddaeth i law yn ôl sector.


**Ffigur 1 – Ymatebion Cymru Gyfan**



**Ffigur 2 – Ymatebion Ardal Basn Afon Dyfrdwy**



**Ffigur 3 – Ymatebion Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru**



Ar y tudalennau canlynol ceir ein hymateb i'r sylwadau a ddaeth i law.

### Cwestiwn Ymgynghoriad 1

#### ***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallwn ei gwella?***

Yn gyffredinol awgrymodd ymatebwyr fod angen Cynllun Rheoli Basn Afon strategol mwy ymarferol, a ddylai gynnwys arweiniad cyfeirio clir i gefnogi cyflawni lleol ynghyd â dangos y cysylltiadau â chynlluniau eraill megis Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Traethlin. Roeddent o'r farn ei bod yn anodd iawn ar hyn o bryd cael gafael ar wybodaeth benodol, leol, am bwy sy'n gwneud beth, ymhle a pha arian sydd ar gael ar gyfer gweithredu lleol. Roedd nifer o sylwadau ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am ein hamgylchedd morol a bod y dogfennau'n canolbwyntio mewn gwirionedd ar afonydd. Mae pa mor ddefnyddiol yw'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon a llywio'ch ffordd drwyddynt yn dal yn her wirioneddol.

#### Ymateb

Caiff gwelliannau eu gwneud i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud y cysylltiadau o'r amcanion strategol drwodd i gamau gweithredu lleol, a hynny drwy'r dogfennau ar eu hyd. Caiff hyn ei nodi'n glir un ai yn y brif ddogfen neu'r Atodiad ategol.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwella'r cynnwys am ddŵr morol, dŵr daear, gwlyptiroedd a llynnoedd fel bod llai o ffocws ar afonydd a bod y dogfennau'n adlewyrchu ein hamgylchedd dŵr yn ei gyfanrwydd yn well.

#### ***a. A yw'r dogfennau Crynodeb Dalgylch Rheoli yn ddefnyddiol? Nodwch sylwadau ar sut y gallwn eu gwella.***

Teimlai ymatebwyr fod y crynodebau dalgylch yn offeryn defnyddiol yn ategu'r ddogfen fwy strategol. Awgrymwyd sut y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru wella'r rhain, yn cynnwys

ychwanegu gwybodaeth fanylach am gynlluniau lleol megis partneriaethau a phrosiectau, sy'n cael eu hariannu drwy raglenni'r Cynllun Datblygu Gwledig, yr UE a LIFE. Tynnwyd sylw hefyd at nifer o elfennau oedd wedi'u gadael allan o gynodebau dalgylchoedd penodol. Awgrymwyd y gellid integreiddio'r rhain â chrynodebau diweddar y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Yn benodol o ran dalgylch Dyfrdwy, awgrymodd rhaid na fyddai o reidrydd angen Cynllun Rheoli Basn Afon a'r crynodeb dalgylch.

### Ymateb

Rydym yn croesawu cefnogaeth ac ymwneud llawer o'n partneriaid yn y gwaith o ddatblygu ein bwndel cyntaf o gynodebau dalgylch yng Nghymru. Byddwn yn ystyried datblygu'r rhain ymhellach oherwydd gallent fod yn arf allweddol i gefnogi cyflawni lleol ynghyd â gwaith Panel Cyswllt yr Ardal Basn Afon. Mae angen gwaith pellach ar sut rydym ni am eu hintegreiddio â chrynodebau eraill a'r Datganiadau Ardal arfaethedig o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru). Bydd hyn yn caniatáu inni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y crynodebau'n cynnwys gwell gwybodaeth am bartneriaethau gweithredol a sut mae modd defnyddio gorgyffwrdd ar raglenni sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd, megis arian y Cynllun Datblygu Gwledig, yr UE a LIFE, i wireddu gwell canlyniadau i'r amgylchedd.

Bydd angen hefyd inni sicrhau bod y dogfennau'n gweithio ochr yn ochr â'r cynlluniau statudol, Gwarchod Dyfroedd Cymru a sicrhau eu bod yn fwy cyson â dogfennau eraill tebyg fel y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a chynlluniau rheoli Natura 2000. Yn y dyfodol, mae'r crynodebau hyn hefyd yn cynnig cyfle inni i wella'r integreiddio ar raglenni gwaith eraill, gan ganolbwyntio ar Gynllunio Adnoddau Naturiol yng Nghymru.

Yn y cynlluniau diweddaredig, byddwn yn ymdrechu i wella'r wybodaeth am ein hamgylchedd morol a dŵr daear, a rhoi sylw i unrhyw gamgymeriadau neu elfennau sydd wedi'u hepgor. Hefyd, rydym yn cydnabod bod yr amgylchedd yn newid drwy'r amser ac y bydd angen inni sicrhau fod y crynodebau'n berthnasol a chyfredol, os ydym am iddynt fod yn rhan o raglen gyflawni fuddiol. Er enghraifft, ers yr ymgynghoriad mae Gwarchodfa Natur Forol Skomer wedi dod yn Barth Cadwraeth Morol.

### ***b. A yw Gwarchod Dyfroedd Cymru yn gweithio i chi? Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gyfer gwelliannau pellach?***

Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod Gwarchod Dyfroedd Cymru yn hawdd ei ddefnyddio ac yn cynnwys llawer o wybodaeth fanwl, ddefnyddiol, ond teimlai rhai fod angen rhagor o fanylion am lednentydd. Nodwyd bod diffygion technegol ar y system ar adegau ac nad oedd rhai dolenni'n gweithio. Dywedodd un ymatebydd fod llawer o brosiectau heb eu cynnwys ar y map prosiectau a bod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ddiweddarau hyn. Dywedwyd hefyd nad oes angen pedwar map oherwydd gellid rhoi'r wybodaeth ar un.

Awgrymodd rhai ymatebwyr ffyrdd posibl o wella'r system, er enghraifft cyfleuster chwilio, trefnu haenau a hidlydd ar ddalgylchoedd. Teimlai rhai y gellid ychwanegu rhagor o ddata, e.e. data Cwmnïau Dŵr ar gyflenwad, ansawdd dŵr cyflenwadau preifat a phrosiectau i ymgyrraedd atynt.

### Ymateb

Rydym yn croesawu'r sylwadau a gafwyd am Gwarchod Dyfroedd Cymru ac rydym yn ymdrechu i'w wella'n barhaus. Wrth wneud hynny byddwn yn ystyried yr awgrymiadau gwella a wnaed. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r hyn y gallwn ei wneud â Gwarchod



Dyfroedd Cymru, ac efallai na fydd modd inni ymgynghori'r holl awgrymiadau ar hyn o bryd. Wrth fynd ymlaen byddwn yn cadw pob sylw ac awgrym ar gyfer unrhyw system ddiwygiedig a gaiff ei datblygu gennym efallai yn y dyfodol.

## Cwestiwn Ymgynghoriad 2

***Yn adran 3 rydym wedi nodi newidiadau o ran sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar yr amgylchedd dŵr.***

***Ydych chi'n cytuno ar y newidiadau arfaethedig i ffiniau dalgylchoedd rheoli a chyrrff dŵr?***

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder fod cyrrff dŵr arfordirol bach wedi cael eu tynnu o'r rhwydwaith. Teimlai rhai y gallai hyn arwain at anwybyddu llygryddion yn y cyrrff dŵr hyn a'i fod yn rhoi darlun anghyflawn o'r materion i'w hystyried yn y dalgylch. Roedd eraill am weld pa gyrrff dŵr sydd wedi cael eu dileu er mwyn gallu dewis ar sail gwybodaeth. Roedd pryderon hefyd y bydd rhai prosiectau gwerth chweil yn colli arian neu ysgogiad oherwydd y newid arfaethedig ac y dylem osgoi tynnu cyrrff dŵr lle mae yna asedau cwmnïau dŵr sydd â sbardun ariannu drwy'r WFD. Roedd rhywfaint o bryder hefyd o ran ble mae'r cyrrff dŵr hyn yn llifo i Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a'r gred y byddai llai o fonitro.

Crybwyllwyd pryder ynglŷn â defnyddio dalgylchoedd dŵr. Teimlid nad yw rhannu'r tir yn ôl dalgylchoedd dŵr yn rhoi sylw i'r ucheldiroedd a bod rheolaeth y safleoedd hyn yn gallu effeithio ar sawl dalgylch dŵr, dim ots pa derfynau sydd wedi'u pennu. Hefyd, mae cyswllt rhwng rhai dalgylchoedd a chynlluniau o waith dyn (e.e. piblinellau) sy'n gallu newid yr hydroleg ac effeithio ar gemeg dŵr.

### Ymateb

Mae pob darn o afon, nant neu sianel ddraenio yng Nghymru yn cael ei warchod gan ein deddfwriaeth ddomestig. Mae'n ofynnol yn ôl y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ein bod yn adrodd ar statws ein cyrrff dŵr ac i wneud hynny (er enghraifft yn yr RBMP) rydym yn defnyddio llinell afon o fewn y dalgylch hwnnw. Ar gyfer y cylch cynllunio rheolaeth basn afon cyfredol cafodd y llinell afon hon (y cyfeirir ati'n aml fel y 'llinell las') ei deillio o'r rhwydwaith afonydd graddfa 1:50,000. Mae hyn wedi'i ddiweddarau gan ddefnyddio'r 'rhwydwaith afonydd manwl'. Rhwydwaith adrodd yn unig yw'r llinell afon a'r llinell afon hon sy'n ymddangos ar fapiau yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon diweddedig.

Yn sgil yr adolygiad hwn o'r rhwydwaith, tynnwyd nifer o nentydd bach (h.y. y cyrsiau dŵr hynny sy'n llai nag 1km o hyd neu â dalgylch o lai na 10 km<sup>2</sup>). Roedd y maint lleiaf yn gyson â bwriad gwreiddiol y Gyfarwydddeb. Er nad adroddir ar y dyfroedd bach hyn, mae'r WFD yn cwmpasu pob corff o ddŵr wyneb, nid dim ond y rhai sy'n cael eu cynrychioli fel llinell las ar fapiau WFD. Lle mae darn o ddŵr yn rhy fach i fod yn gorff dŵr ffurfiol, neu'n rhy fach i ymddangos ar fap o'r corff dŵr, mae'n dal i gael ei warchod gan y gyfraith rhag llygredd, addasu neu dynnu ac mae modd ei wella o hyd lle mae gweithredu ac asesiadau lleol yn barnu bod hynny'n flaenoriaeth.

Mewn perthynas â dalgylchoedd dŵr, rydym yn ymwybodol fod rheolaeth safleoedd ucheldir mawr yn gallu effeithio ar sawl dalgylch yn is i lawr. Gall y mesurau lleol sy'n ofynnol ar y safleoedd hynny gyflawni amcanion WFD yng nghyswllt sawl corff dŵr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn datblygu Fframwaith Ucheldir sy'n canolbwyntio ar safleoedd dynodedig gyda'r nod o wella ansawdd a bioamrywiaeth ecosystemau ucheldir yng Nghymru drwy:-

- Ddatblygu blaenoriaethau cadwraeth cenedlaethol a rhanbarthol drwy dynnu sylw at nodweddion pwysig a rhoi blaenoriaeth i'w cadw o fewn ardaloedd neilltuol.
- Targedu adfer a rheoli cynefinoedd yn y lleoliadau gorau yn ecolegol a strategol yng Nghymru, yn ogystal ag atal darnio cynefinoedd.
- Darparu arweiniad ar gynllunio gwaith rheoli, yn cynnwys gosod amcanion tymor hir a llywio'r gwaith rheoli er mwyn cyflawni'r amcanion hyn ar safleoedd unigol.

Mae'r diweddariadau arfaethedig i'r Fframwaith yn cael eu treialu ar hyn o bryd yn Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri.

### ***a. A hoffech chi weld llynnoedd sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu cynnwys yn yr ail gylch?***

Cytunai mwyafrif y rhai a atebodd y cwestiwn y dylai llynnoedd sy'n SoDdGA gael eu cynnwys fel Ardaloedd Gwarchoddedig, gydag un ymatebydd yn cytuno'n gryf. Fodd bynnag, roedd gan rai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag (i) y baich ychwanegol posibl o ran monitro a rheoli; (ii) y dystiolaeth i ddangos pam fod angen y mesur hwn a (iii) y dichonoldeb economaidd a pha un a fyddai'r gweithredu yn rhy ddrud. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am leoliad a nifer y llynnoedd a nododd rhai ymatebwyr safleoedd penodol nad ydynt yn ymddangos ar y map ar Gwarchod Dyfroedd Cymru.

#### Ymateb

Mae tri llyn ar hugain wedi'u rhestru yn y categori hwn, gyda dalgylch cyfun o < 0.3% o arwynebedd tir Cymru. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru targed oddi wrth Lywodraeth Cymru yn barod, drwy Strategaeth Amgylcheddol Cymru<sup>2</sup>, y dylai'r llynnoedd hyn a SoDdGA eraill gyrraedd Cyflwr Ffafirol ac y dylai fod data asesu cyflwr am bob llyn dan sylw. Mae un ar bymtheg o'r llynnoedd hyn mewn cyflwr anffafirol, sy'n dystiolaeth fod angen gweithredu pellach. Roedd graddfa a natur yr effeithiau'n amrywio, ond mae a wnelo mwyafrif yr effeithiau â maethynnau o ffynonellau gwasgaredig.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n penderfynu sut mae gweithredu'n fwyaf priodol o ran dynodi'r llynnoedd hyn yn Ardaloedd Gwarchoddedig yn yr RBMPs yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddwn yn rhannu ein penderfyniad ag aelodau'r Panel Cyswllt yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref, cyn anfon y cynlluniau rheoli basn afon terfynol at y Gweinidog i'w cymeradwyo.

### **Cwestiwn Ymgynghoriad 3**

***Yn adran 4 rydym wedi nodi cynigion ar gyfer mesurau cenedlaethol newydd. Ceir rhestr o'r holl fesurau yn yr atodiad trosolwg cynllunio.***

#### ***Ydych chi'n cytuno ar y mesurau arfaethedig?***

Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr â'r mesurau arfaethedig, gyda llawer yn ychwanegu sylwadau am gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i wella'r amgylchedd. Rydym yn ddiolchgar am bob awgrym a byddwn yn ystyried y rhain ymhellach wrth gynhyrchu'r cynllun terfynol.

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006

Lle'r awgrymwyd mesurau/camau gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r materion a godwyd gennym ni o'r heriau a'r dewisiadau, rydym yn ymdrin â nhw o dan y penawdau hynny isod;

***a. A oes yna unrhyw fesurau cenedlaethol yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys? Nodwch pam a darparwch unrhyw wybodaeth bellach i lywio'r mesurau.***

### **Addasiadau ffisegol**

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai fod gwell cysylltiadau rhwng y Cynlluniau Rheoli Basn Afon a'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Teimlai eraill fod angen gorfodi a monitro'r canllawiau ynni dŵr yn fwy llym a chrybwyllodd un y difrod y gellir ei wneud i lednentydd silio os nad yw amddiffynfeydd rhag llifogydd gan eraill yn cael eu sefydlu yn y ffordd iawn.

### Ymateb

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos gwell integreiddio rhwng Cynlluniau Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd drwy nodi cyfleoedd i wella'r amgchedd dŵr drwy'r rhaglenni cynnal a chadw presennol a dyluniad cynlluniau, drwy wreiddio gwybodaeth WFD mewn rhaglenni gwaith a thrwy nodi ble bydd mesurau blaenoriaeth WFD yn cyd-daro â mesurau amddiffyn i reoli perygl llifogydd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i nodi cyfleoedd ar gyfer gwell integreiddio wrth inni ddatblygu'n gwaith rheoli adnoddau naturiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda sectorau eraill i sicrhau y cedwir at y canllawiau a byddwn yn eu cefnogi wrth iddynt gyflawni'u rhwymedigaethau o dan WFD.

### **Llygredd o garthion a dŵr gwastraff**

Teimlai un ymatebydd y byddai'n dda o beth defnyddio mwy ar Barthau Diogelu dŵr yfed yng Nghymru a gofynnodd am i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i sefydlu proses ddynodi. Mynegwyd pryder ynglŷn â chynnal a chadw a gwacáu tanciau carthion, a hynny o ran pa mor aml y gwneir y gwaith a bod darparwyr wasanaeth anghyfreithlon yn cael eu defnyddio.

### Ymateb

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â dynodi Parthau Diogelu dŵr yfed, lle mae tystiolaeth yn dangos bod angen. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei Gynllun Llygredd Gwasgaredig i Gymru, wedi nodi gollyngiadau carthion bach o systemau sy'n gwasanaethu eiddo preifat, megis tanciau carthion, fel un o wyth maes blaenoriaeth i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig. Rhaid i weithfeydd bach trin carthion a thanciau carthion gael eu cofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'n ofynnol i bob gwaith bach trin carthion, yn cynnwys tanciau carthion, gael eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu'n ddigonol. Lle'r ydym yn dod yn ymwybodol o lygredd o'r asedau hyn byddwn yn gweithredu fel sy'n briodol. Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi dogfen ganllawiau, 'Gweithredu eich systemau trin carthion domestig yn gywir', yn ogystal â mynd i gyfarfod o swyddogion Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol Cymru i godi ymwybyddiaeth. Mae angen i unrhyw gwmni sy'n gwacáu tanciau carthion fod yn gludydd gwastraff cofrestredig; mae'n drosedd i ddeiliaid tai ddefnyddio cludwyr nad ydynt wedi cofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei Strategaeth Ddŵr i Gymru y bydd yn cefnogi perchenogion systemau carthion preifat drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a

phartneriaid eraill i ddarparu canllawiau ar gynnal a chadw tanciau carthion. Bydd hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchenogion systemau carthion preifat yn eu cynnal a'u cadw er mwyn atal bygythiad i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd. Mae hefyd yn bwriadu ymgynghori ynghylch a gweithredu canllawiau diwygiedig ar gynlluniau carthffosiaeth i gymunedau gwledig, o dan Adran 101A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 ac ystyried deddfu i symleiddio'r broses.

### **Llygredd o ardaloedd gwledig**

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wneud mwy i atal llygredd mewn ardaloedd gwledig gan ddarparu cymhellion, dosbarthu cyngor a chanllawiau clir, da, ynghyd â rheoleiddio tynnach.

Dywedodd llawer o ymatebwyr nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser yn effeithiol o ran canfod digwyddiadau a gweithredu. Roedd teimlad y dylid gweithredu'n fwy ar sail risg / adeiladu ar wybodaeth am fath/maint/lleoliad/hanes blaenorol etc ffermydd fel bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fonitro'r rhai sy'n achosi'r risg fwyaf.

Cytunai sawl sefydliad fod angen inni edrych ar atebion ymhellach i fyny'r gadwyn ac yn arbennig ar broblemau'n ymwneud â nentydd llai na'r rhai sy'n cael eu targedu ar hyn o bryd, ac ar eu monitro. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn poeni nad oes modd mynd i'r afael â 'llygredd gwasgaredig amaethyddol' ar sail safonedig – mae angen i bawb ohonom weithio gyda'n gilydd, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y sector defnydd tir a'r trydydd sector.

Teimlid bod ar Cyfoeth Naturiol Cymru angen strategaeth gyfathrebu a chynllun gweithredu ar draws Cymru gyfan. Bydd hyn yn sicrhau cyd-drefnu a chysondeb o ran negeseuon cadarnhaol Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut mae helpu i ddatrys materion llygredd amaethyddol / gwledig. Teimlai rhai fod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru roi mwy o gydnabyddiaeth i waith trydydd partïon. Teimlid y dylem ymchwilio i ganfod a oes gan randdeiliaid/partneriaid rôl fonitro ffurfiol ac a allent helpu gydag adnoddau. Dyna yw partneriaeth dda a rhannu gwybodaeth.

Mynegwyd pryder gan rai rhanddeiliaid ynglŷn â pha mor llwyddiannus yw trawsgydymffurfio o ran rheoleiddio ffermydd. Teimlid y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymwneud yn fwy gweithredol â thrawsgydymffurfio a'r gwasanaeth cynghori ffermwyr newydd a thargedu mwy o adnoddau at gynghori a rhoi arweiniad. Mynegodd rhai bryder fod tanciau carthion mewn ardaloedd gwledig yn bryder ac y byddai ymgyrch i fonitro am ddigwyddiadau a gweithredu ar hynny o fudd. Cawsom nifer o ymatebion yn dweud bod cyfleoedd gwirioneddol i'r Cynllun Datblygu Gwledig a'i gyllid ddatrys materion yn y pum mlynedd nesaf.

Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen gwneud mwy i hyrwyddo plannu coed yn strategol a darparu cymhellion drwy ddefnyddio'r mapiau/modelu sydd ar gael fel arweiniad ar lefel dalgylch a fferm, er mwyn rheoli pridd a dŵr ar ffermdir mewn modd sy'n cynnal ffermio cynaliadwy. Cytunai llawer y byddai strategaeth i blannu mwy yn y dalgylchoedd uchaf yn cael effaith gadarnhaol. Roedd rhywfaint o bryder nad ydym wastad yn gosod esiampwl wrth reoli ein hystâd coetir ni ein hunain.

### Ymateb

Mae rheoli gwael ar dir yn un o achosion pennaf llygredd dŵr gwasgaredig. Mae cynllun gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru ar lygredd gwasgaredig yn tynnu sylw at reoli stoc, rheoli tir a storio slyri fel tri o'r wyth maes allweddol sy'n peri pryder. Mae'r cynllun yn amlinellu'r camau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu'u cymryd i weithio gyda'r rhai sy'n achosi'r problemau'n uniongyrchol, a'r rhai a allai ddylanwadu ar hyn i leihau llygredd gwasgaredig.

Mae Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru yn egluro mai Cynllun Glastir Uwch fydd y prif fecanwaith o hyd er targedu gweithgarwch i gyflawni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd gweithredu fel hyn yn help i wella ansawdd dŵr a'r rheolaeth ar ddŵr drwy roi sylw i faterion ar hyd cwrs dŵr yn hytrach na chyfyngu'r gweithredu i un fferm ar y tro. Ategir hyn gan welliannau seilwaith a gyflawnir drwy'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae Cynllun Creu Coetir Glastir hefyd yn darparu cyfleoedd i dirfeddianwyr gyfrannu at reoleiddio dŵr a lliniaru arferion defnydd tir amaethyddol drwy waith plannu coetir sy'n cael ei dargedu.

Fel mae Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru yn cydnabod, gall llygredd gwasgaredig fod yn anodd ei ganfod a'i reoli ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd ymdrin mewn ffordd gydgyssylltiedig â rheoli tir a dŵr. Mae wedi nodi ei bod yn dymuno gweithio gyda'r sectorau adeiladu, coedwigaeth ac amaethyddiaeth i ddeall, adolygu a, lle mae hynny'n briodol, newid yr arferion a'r dulliau rheoleiddio presennol. Bydd yn ystyried a fyddai trefn debyg i'r un yn yr Alban yn briodol i ymdrin â rhai o'r materion yng Nghymru. Mae hynny wedi golygu defnyddio rheolau rhwymo cyffredinol i ymdrin â llygredd gwasgaredig. Byddem yn croesawu'r gallu i weithredu drwy ddefnyddio rheolau rhwymo cyffredinol a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar fecanwaith i sefydlu hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn targedu ei waith drwy fabwysiadu trefn seiliedig ar risg, sy'n cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill i wneud yn fawr o'n cyd ymdrechion. Fodd bynnag, mae cyfleoedd pellach bob amser i gyflwyno dulliau newydd seiliedig ar risg. Rydym bob amser yn adolygu'n gwaith a sut rydyn ni'n ymgysylltu ag eraill i sicrhau'r gorau o'n hymdrechion. Gwyddom hefyd fod cyngor ac arweiniad rhagweithiol yn gallu helpu i gyflawni gwell canlyniadau. Rydym yn gweithio gyda llywodraeth a'n partneriaid i sicrhau bod mwy o'n ffocws yn y meysydd hyn er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau rydyn ni am eu gweld, a sicrhau bod gwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn cael mwy o effaith.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno bod rhagor o gyfleoedd eto i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector defnydd tir (yn cynnwys y trydydd sector) i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Mae Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru hefyd yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'i Gwasanaethau Cynghori Amaethyddol hi ei hun i weithio gyda thirfeddianwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o lygredd gwasgaredig a sut y gallant helpu i'w atal drwy reoli tir yn well. Rydym eisoes yn gweithio i ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd hyn. Rydym yn cytuno hefyd fod angen cyfathrebu clir. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth leol am faterion yn ymwneud â safleoedd penodol yn ogystal â materion strategol. Gallwn wedyn ddarparu'r ateb mwyaf effeithiol ac effeithlon, e.e. cyngor, digwyddiadau hyfforddi, ymgysylltu â rhanddeiliaid/partneriaid lleol, arweiniad drwy sianelau sy'n bodoli'n barod, megis y gwasanaeth cynghori ffermwyr, cylchlythyron y diwydiant, a hyrwyddo cynlluniau gwirfoddol.

Rydym yn cydnabod ac yn defnyddio'r cyfle i weithio gyda thrydydd partion ar ein gwaith monitro. Mae angen, fodd bynnag, i'r gymuned ehangach roi gwybod inni cyn gyflymed â phosibl am faterion y maent yn eu gweld er mwyn inni allu ymateb yn briodol ac yn gyson. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn gweithio'n fanwl gyda thrawsgydymffurfio a'r gwasanaeth cynghori ffermwyr newydd. Rydym hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ac yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi cynghori Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mathau o ymyriadau a fydd yn caniatáu i'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf gefnogi ffermio cynaliadwy a gwella ansawdd ecolegol yr amgylchedd dŵr.

Mae gweithredu ar lefel yr ecosystem yn ffordd sylfaenol o weithio sydd wedi'i mabwysiadu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd sefydlu rheoli adnoddau naturiol yn elfen brif ffrwd ledled y sefydliad a'i wreiddio yn y sector rheoli tir yn help i wireddu gwell ansawdd dŵr ym mhob dalgylch. Mae Strategaeth Amaethyddol Llywodraeth Cymru yn gyfle arall rydyn ni'n edrych arno i ddylanwadu ar newid ymddygiad yn y sector.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrechu i fod yn esiampl o ymarfer da ym maes rheoli tir yn gynaliadwy. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i rannu enghreifftiau o ymarfer da i arddangos (drwy astudiaethau achos sy'n cynnig arweiniad a digwyddiadau hyfforddi) yr arferion gorau i reolwyr tir. Mae Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru wedi'i hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Mae'r rhain yn darparu safonau rheoli coedwigoedd rhyngwladol ac yn cynnwys meini prawf economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS) yn safon rheoli coedwigoedd i'r Deyrnas Unedig sydd wedi'i chymeradwyo gan FSC-UK a PEFC-UK. O dan ein Datganiad Polisi Amgylcheddol mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i fabwysiadu a chynnal Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS) ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru.

### **Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth**

Er i lygredd o ffynonellau man-benodol gael ei grybwyll, canolbwyntiodd ymatebwyr yn eu sylwadau ar liniaru effaith llygredd trefol gwasgaredig; yn cynnwys camgysylltiadau. Pwysleisiwyd rôl rheoli defnydd tir a seilwaith gwyrdd er atal a lliniaru effaith llygredd trefol gwasgaredig. Awgrymwyd y dylem fabwysiadu mesur ychwanegol i ddylanwadu ar awdurdodau cynllunio gan ei gwneud yn ofynnol defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) a gorfodi hynny, a chyfrannu at roi technoleg SDC briodol ar waith.

#### Ymateb

Nododd Cynllun Llygredd Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru ystadau diwydiannol, camgysylltiadau draeniau a draenio dŵr wyneb o ardaloedd datblygedig fel blaenoriaethau.

Croesewir y pwyntiau a wnaed ac maent wedi'u nodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Credwn fod llygredd gwasgaredig yn risg arwyddocaol i gyrrff dŵr mewn ardaloedd trefol. Rydym yn gweithio i fagu gwell dealltwriaeth o achosion gwaelodol llygredd gwasgaredig trefol ac i fynd i'r afael â nhw. Rydym yn cytuno bod potensial sylweddol i wella'r amgylchedd dŵr drwy fabwysiadu seilwaith gwyrdd priodol. Byddwn yn sicrhau bod y materion a'r awgrymiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol ac yn ystyried o ddifrif a ddylid cynnwys y mesur a awgrymwyd.

Nodai Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru y bydd yn edrych ar opsiynau i weithredu Atodlen 3 at Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i

ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion SDC sy'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol.

Bydd hefyd yn cyhoeddi safonau cenedlaethol interim ar sail gynghori nes inni ddechrau gweithredu Atodlen 3 at Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd hyn yn galluogi dylunwyr, datblygwyr eiddo, awdurdodau lleol a phartïon eraill â buddiant i ddangos eu bod wedi rhoi sylw i gyngor cynllunio Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu a Pherygl Llifogydd a hefyd i dreialu'r safonau, fel y bydd modd eu hadolygu os oes angen cyn eu rhoi ar sail statudol. Bydd hefyd yn cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth gyfredol ynglŷn â pherchenogaeth draeniau a materion cysylltiol, gyda phwyslais arbennig ar ddŵr wyneb ac asedau amddifad ac ar gamgysylltiadau draeniau. Bydd yr adolygiad yn cynnwys gweithrediad y broses mabwysiadu carthffosiaeth orfodol ac effeithiolrwydd Safonau Adeiladu 2012 y Gweinidogion.

### **Llygredd o Fwyngloddiau**

Argymhellodd un ymatebydd y dylid gweithredu yng nghylch presennol WFD a chylchoedd y dyfodol i ddileu/lleihau llygredd i ddyfroedd wyneb o hen fwyngloddiau metel. Argymhellodd y dylai'r Awdurdod Glo arwain y rôl hon. Os yw'r cyllid yn annigonol, roedd o'r farn y dylid gosod amcanion eraill. Hefyd, os oes effeithiau llygredd yn deillio o bartïon eraill, roedd o'r farn y dylai unrhyw gamau yn erbyn y rhain gael eu gohirio nes bod yr effeithiau mawr o fwyngloddiau metel wedi cael eu lleihau.

### Ymateb

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod yr effaith fawr y mae gollyngiadau o fwyngloddiau metel a glo yn ei chael ar ddŵr wyneb a dŵr daear ar draws Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Glo, fel corff partner, ar y materion hyn ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at agweddau technegol y gwaith. Yn amodol ar gyllid a chytundebau i'r dyfodol, y gobaith yw y bydd yn cyfrannu mwy tuag at unrhyw raglenni trin ac adfer yn y dyfodol er mwyn gwella amgylchedd y safleoedd hyn.

Rydym yn cydnabod y dylai pob partner cyflawni weithio mewn ffordd integredig ond na fydd cyllid ar gael o reidrwydd i bob partner yr un pryd. Rydym yn cydnabod hefyd fod buddion i welliannau o fewn dosbarth er na fydd efallai yn bosibl cyrraedd statws da yn y tymor byr.

### **Newidiadau i lefel naturiol a llif dŵr**

Soniodd un ymatebydd am yr angen i ddiwygio trwyddedau tynnu dŵr er mwyn amddiffyn gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol a'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig â nhw.

### Ymateb

Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Ddŵr i Gymru. Mae'r Strategaeth yn nodi diwygio'r systemau rheoli tynnu dŵr fel un o'r chwe blaenoriaeth bolisi y byddant yn canolbwyntio ar eu datblygu a'u cyflawni rhwng 2015 a 2018.

### **Rhywogaethau estron goresgynnol**

Nododd rhai ymatebwyr ffyrdd eraill o reoli rhywogaethau estron goresgynnol yn yr amgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio offerynnau deddfwriaethol eraill, ffensio rhag da byw, pori cyfnodol a lleiniau clustogi i helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol dyfrol.

## Ymateb

Gallai cyfleoedd i ddefnyddio Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau drwy Ddeddf Seilwaith 2015 helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol, yn unol â chanllawiau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynhyrchu ar sut y dylid defnyddio'r Gorchmynion. Gallai defnyddio ffensys, lleiniau clustogi a/neu bori fod yn ddefnyddiol wrth weithredu ynglŷn â rhywogaethau estron goresgynnol mewn perthynas â safleoedd sydd â dynodiad rhyngwladol neu pan fyddant wedi'u seilio ar dystiolaeth sy'n cysylltu effaith rhywogaethau estron goresgynnol â statws corff dŵr. Byddai angen ystyried hyn fesul safle a byddai rhaid cynnwys unrhyw amgylchiadau neilltuol yn gysylltiedig â'r safle hwnnw i wneud yn siŵr bod y gorchmynion yn briodol i'r lleoliad dan sylw.

### ***b. Beth yw'r blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu yn eich barn chi?***

Atebodd llawer o ymatebwyr y cwestiwn hwn a chawsom amryw o sylwadau am flaenoriaethau gweithredu lleol sy'n bwysig yn eu tyb nhw. Roedd y rhain yn cynnwys: amddiffyn ardaloedd eang lle mae mawn wedi erydu, ehangu a/neu greu coetir fel bod dŵr yn ymdreiddio a dal a storio carbon, rheoleiddio ar sail cyngor ac annog yr arferion gorau. Gwellu'r afonydd gwaethaf, rhywbeth mwy amlwg i drethdalwyr sydd hefyd yn eu hysbrydoli. Teimlai eraill y dylai fod mwy o ffocws ar ddyfroedd pysgod cregyn a gwelliannau i ffynonellau llygredd man-benodol a gwasgaredig, yn cynnwys camgysylltiadau a darparu mwy o fynediad at ddŵr.

## Ymateb

Nodwyd y pwyntiau i gyd a byddwn yn parhau i weithio'n lleol gyda sectorau/unigolion perthnasol fel yr Ymddiriedolaethau Afon, grwpiau cymunedol etc i wella'r amgylchedd dŵr er mwyn i bawb ei fwynhau.

### ***c. Pa fesurau allwch chi eu darparu i helpu i wella'r amgylchedd dŵr? A fydddech crystal â chynnig gwybodaeth am y rhain, ble y gellid eu gweithredu, a sut y byddent yn arwain at welliant.***

Nododd ymatebwyr ystod eang o fesurau y maent yn bwriadu'u darparu, a fydd yn cefnogi canlyniadau WFD. Mae'r rhain yn cynnwys:

- prosiectau i adfer cynefinoedd ac ecosystemau sydd wedi diraddio, megis gwlyptiroedd, corydd a choetiroedd.
- rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- ymgysylltu â chymunedau lleol a thirfeddianwyr sy'n gweithredu'n wirfoddol ar faterion amgylcheddol.
- datblygu a chyd-drefnu partneriaethau lleol er mwyn gwireddu canlyniadau amgylcheddol yn effeithiol.
- cynlluniau rheoli asedau cwmnïau dŵr, a fydd yn darparu ymchwiliadau a buddsoddiadau i leihau effeithiau gollyngiadau carthion a chronni dŵr.
- lledaenu gwybodaeth i aelodau a'r gymuned ehangach ynglŷn â'r arferion gorau a mecanweithiau ariannu, er mwyn hwyluso newid i arferion rheoli tir mwy cynaliadwy.

Nododd rhanddeiliaid hefyd yr angen i dreialu atebion arloesol, megis defnyddio pysgod cregyn i "lanhau" dyfroedd sydd wedi'u llygru.

## Ymateb



Rydym yn cydnabod y cyfraniad mawr a chadarnhaol y mae llawer o sefydliadau'n ei wneud o ran gwireddu gwelliannau amgylcheddol. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid strategol a lleol i nodi cyfleoedd i weithredu'n 'gydgysylltiedig' wrth gynllunio a chyflawni. Drwy'r ail gylch, rydym am ddatblygu'r ffordd rydyn ni'n ymdrin â rheoli adnoddau naturiol a chipio'r buddion ehangach a gyflenwir drwy WFD. Cytunwn fod i arloesi rôl bwysig ac rydym am weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau a thechnegau newydd i ddatrys problemau – gall fod i hynny y budd ychwanegol o gefnogi busnesau newydd neu leol.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu a blaenoriaethu'r mesurau rydym am geisio'u cyflawni yn ystod yr ail gylch, fel bod ein rhaglen wedi'i blaenoriaethu a'i bod yn cyflawni gwelliannau cynaliadwy. Rydym yn cydnabod yr angen i weithio gydag eraill a chysoni adnoddau cyn belled â phosibl. Dim ond drwy gydweithio a phartneriaeth y gwireddir canlyniadau cynaliadwy. Mae cyfraniad partneriaid yn ystod y cylch cyntaf a'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn sail i'r gwaith hwn.

#### Cwestiwn Ymgynghoriad 4

***Yn adran 4 rydym wedi crynhoi'r cyrff dŵr lle rydym o'r farn ei bod yn briodol cynnig terfyn amser hwy neu amcan llai llym. Ceir rhestr o gyrff dŵr a chyfiawnhad yn yr atodiad trosolwg cynllunio ochr yn ochr â'n dull gweithredu.***

***Oes gennych chi unrhyw wybodaeth bellach i lywio'r ardaloedd lle rydym wedi cynnig amcan amgen?***

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod bod WFD yn caniatáu defnyddio amcanion amgen, y dylai'r rhain gael eu defnyddio lle mae yna dystiolaeth gadarn, a'i bod yn bwysig bod yn onest â rhanddeiliaid ynglŷn â'r hyn sy'n realistig o ran dichonoldeb technegol, cost afresymol a/neu ariannu. Er enghraifft, dim ond i ddarparu atebion o ran dŵr o fwyngloddiau glo y caiff yr Awdurdod Glo ei ariannu ar hyn o bryd; nid yw'n cael ei ariannu i ddarparu atebion i lygredd o fwyngloddiau metel. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o wybodaeth neu eglurhad ynglŷn ag amcanion amgen arfaethedig. Er enghraifft, mynegwyd pryder ynglŷn â defnyddio "amodau naturiol" i rannu amcanion lle caiff y methiant ei achosi gan asideiddio.

#### Ymateb

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno y bydd gosod amcanion realistig, wedi'u seilio ar dystiolaeth, o fudd i broses gynllunio WFD. Mae rhaglen ymchwiliadau'r cylch cyntaf a'r asesiad economaidd a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn wedi rhoi gwell dealltwriaeth inni o'r hyn sy'n ddichonadwy yn dechnegol, yn fuddiol o ran cost ac yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer yr ail gylch. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon a'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel sail i'n gwaith yn gosod amcanion amgen.

Rydym yn cydnabod yr angen i fod yn dryloyw a byddwn yn sicrhau bod ein dulliau a'n cyfiawnhad yn cael eu hegluro'n glir. O ran "amodau naturiol", mae hyn yn cyfeirio at yr angen i ymestyn amcan WFD i 'da' erbyn 2027, oherwydd y cyfnod o amser y bydd ei angen ar amodau naturiol i ddod at eu hunain yn sgil effeithiau dyddodion asidig. Nid oedd wedi'i fwriadu i awgrymu bod asideiddio yn broses naturiol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd ariannu pellach. Yn achos llygredd o fwyngloddiau metel a etifeddwyd, rydym yn gweithio'n

agos gyda'r Awdurdod Glo a phartneriaid eraill i ddatblygu a chyflawni cynlluniau trin arloesol ar nifer fach o safleoedd.

### **Cwestiwn Ymgynghoriad 5**

***Yn adran 4 rydym yn esbonio bod angen i ni ddatblygu rhaglen o flaenoriaethau i'w darparu yn ystod yr ail gylch.***

***Ydych chi'n cytuno y dylid blaenoriaethu'r mesurau ar sail amcanion statudol (h.y. atal dirywiad a chyflawni amcanion ardal warchoddedig) a thystiolaeth o gostau a manteision y canlyniadau?***

Yn gyffredinol mae'r ymatebwyr yn cytuno bod angen blaenoriaethu amcanion statudol, ac ardaloedd gwarchoddedig (safleoedd dynodedig) yn arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chysylltu â mecanweithiau ariannu a chyflawni clir, a'i seilio ar dystiolaeth gadarn. Mae amrywiaeth barn eang ynglŷn â defnyddio costau a buddion, yn cynnwys yr angen i ddiogelu canlyniadau at y dyfodol, sicrhau bod sectorau'n buddsoddi'n gymesur, gwella rhai o'r cyrff dŵr sy'n cyflawni waethaf, a hyrwyddo gweithredu mawr ei fudd lle mae'n amlwg fod arian ar gael (e.e. plannu coed).

#### Ymateb

Rydym wedi gweithio gydag aelodau'r Panel Cyswllt a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'n ffordd o ymdrin â rhaglen yr ail gylch. Mae'r gwaith hwn wedi nodi rhai sialensiau allweddol, yn arbennig yr angen i rannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gostau a buddion, a blaenoriaethu camau gweithredu/canlyniadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Phaneli Cyswllt a Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen fuddiol o ran cost o fesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i amcanion statudol, ond sydd hefyd yn sicrhau ein bod yn achub ar gyfleoedd ehangach i gyflawni buddion amgylcheddol lleol a buddion i bobl a'r economi. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Gweinidog byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd cyfranogol, ar sail lle (lleol), er mwyn cydweithio â phartneriaid ar raddfa dalgylch. Rydym am i'r cyflawni ar yr ail gylch gyfoethogi'n gwaith rheoli adnoddau naturiol a'n dealltwriaeth o fuddion ehangach canlyniadau WFD.

### **Cwestiwn Ymgynghoriad 6**

***Yn adran 4 rydym wedi modelu'r costau a'r manteision o ddarparu gwelliannau dan bedair sefyllfa.***

***A yw'r sefyllfaoedd a'r asesiad economaidd rydym wedi'u darparu fel rhan o'r cynllun hwn yn ddefnyddiol?***

Mynegwyd amrywiaeth barn gan ymatebwyr ar y sefyllfaoedd a'r asesiad economaidd. Teimlai nifer fod bylchau sylweddol yn y wybodaeth am gostau ac y byddai wedi bod yn fuddiol seilio un o'r sefyllfaoedd ar asesiad o fesurau a chanlyniadau fforddiadwy.

#### Ymateb

Rydym yn cydnabod yr adborth a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad hwn. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r Paneli Cyswllt a Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen o fesurau wedi'u blaenoriaethu sy'n fuddiol o ran y gost. Byddwn yn defnyddio'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn i ddylanwadu ar sut y byddwn yn datblygu ein hasesiad costau a buddion, a fydd yn rhan o'r Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol.

## 2.1 Cwestiynau Ymgynghoriad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cafodd Adroddiad Amgylcheddol yn cofnodi'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yr ymgwymerwyd ag ef ar gyfer pob Cynllun Rheoli Basn Afon ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynlluniau drafft. Y nod oedd sicrhau bod ymgynghoreion yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a negyddol posibl gweithredu'r cynllun drafft, a'u bod yn gallu cynnig sylwadau arnynt. Ceir crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ar yr Adroddiadau Amgylcheddol isod. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am sut y cafodd yr ymgynghoriadau eu cymryd i ystyriaeth yn y Datganiadau Manylion a gaiff eu cyhoeddi gyda'r cynlluniau terfynol ym mis Rhagfyr.

### Cwestiwn Ymgynghoriad 7

***Ydych chi'n cytuno ein bod wedi asesu effeithiau sylweddol Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy yn ddigonol? Disgrifiwch unrhyw agweddau pellach y dylem eu hystyried.***

Yn gyffredinol roedd ymatebwyr o'r farn fod asesiad digonol wedi'i wneud o'r cynllun ac roeddent yn cydnabod y buddion amgylcheddol cyffredinol a gâi eu cyflawni gan y cynllun. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o fanylion ynglŷn â sut roedd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gynnal, yn cynnwys cymhwyso'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

Roedd pryder o du rhai ymatebwyr nad oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael ei gyhoeddi gyda'r cynllun drafft a'i ystyried yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

#### Ymateb

Rhoddai'r Adroddiad Amgylcheddol drosolwg o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a gynhaliwyd ond fe'i seiliwyd hefyd ar waith pellach megis yr adolygiad o bolisiau a chynlluniau perthnasol, yr arfarniad manwl yr ymgwymerwyd ag ef gan ddefnyddio Tablau Arfarnu Cryno a'r ystyriaeth fanwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cwmpasu. Ni chyhoeddwyd y rhain fel atodiadau mewn ymgais i gadw'r dogfennau'n gryno, ond gellir eu darparu drwy wneud cais.

Cytunwn y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael ei gynnal ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r cynllun. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal ochr yn ochr ac mae'n dylanwadu ar flaenoriaethu mesurau a'r gwaith o baratoi'r cynllun terfynol. Bydd yn ei le cyn y cytunir ar y cynllun ar ei wedd derfynol a'i gymeradwyo. Byddwn yn ymgynghori â Thîm Asesu Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England (ar gyfer RBMP Dyfrdwy) ynglŷn â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol cyn pennu'r cynllun ar ei wedd derfynol a'i gymeradywo.

### Cwestiwn Ymgynghoriad 8

***Oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch effeithiau amgylcheddol y cynllun rheoli basn afon nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn? Disgrifiwch nhw, os gwelwch yn dda.***

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod natur amrywiol yr amgylchedd yng Nghymru a'r angen i wybodaeth leol gan dirfeddianwyr, genweirwyr, defnyddwyr hamdden, trigolion a diwydiant gael ei hystyried yn ogystal â phwysigrwydd safleoedd lleol y bernir eu bod ar raddfa strategol.

Roedd y potensial i'r cynllun effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd hanesyddol yn destun pryder i rai trigolion ond yn gyffredinol teimlid bod gormod wedi cael ei wneud o'r effeithiau posibl.

Credai rhai ymatebwyr nad oeddem wedi rhoi digon o sylw i'r buddion hamdden a thwristiaeth sylweddol a fyddai'n deillio o roi'r cynllun, a fydd o fudd i bysgodfeydd, ar waith.

### Ymateb

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd ag ef yn ddogfennau lefel uchel ond fe'u hategir gan gyfoeth o wybodaeth ac ystyriaethau manwl. Bydd gwybodaeth a safleoedd lleol yn hynod bwysig wrth roi'r mesurau ar waith ac, fel y cydnabu un ymatebydd, mae cyfrifoldeb ar bawb i sicrhau llwyddiant y cynllun.

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn nodi'r potensial i'r cynllun effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd hanesyddol ond mae'n cytuno y gall ac y caiff gweithredu ar lefel prosiect ei roi ar waith i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol posibl. Byddem yn ymgymryd ag asesiad amgylcheddol o unrhyw brosiectau o'r fath yn unol â'n polisïau ni yn ogystal â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol i atal, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol.

Byddwn yn sicrhau bod y monitro yr ydym yn ei awgrymu yn y Datganiad Manylion yn cael ei ddylunio yn y fath fodd fel ei fod yn dangos yr effeithiau gwirioneddol ar dwristiaeth a hamdden yn deillio o'r gwelliannau i bysgodfeydd. Caiff y gwaith o fonitro unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol ei nodi yn y Datganiad Manylion.

## **Cwestiwn Ymgynghoriad 9**

### ***A oes yna unrhyw gamau lliniaru neu gyfleoedd eraill y dylem eu hystyried gyda'r mesurau arfaethedig?***

Roedd awgrymiadau y dylai'r cynlluniau geisio darparu gwelliannau megis creu cynefin a phlannu coed. Awgrymwyd y gall cynnydd mewn plannu coed, a hynny'n cael ei dargedu, ar draws tirweddau gwledig a threfol gyfrannu'n sylweddol tuag at sicrhau'r amodau iawn i gynnal poblogaethau iach o bryfed peillio ac y byddai i hynny fudd sylweddol o ran cysylltu cynefin coed a choetir. Teimlid y bydd hyn o fudd i fioamrywiaeth, hamdden, y dirwedd a thwristiaeth.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at gyfleoedd i wneud gwelliannau hamdden megis ystyried gwella neu gynyddu hawliau tramwy cyhoeddus drwy gyflawni unrhyw brosiectau seilwaith fel rhan o'r cynllun.

### Ymateb

Caiff yr awgrymiadau hyn eu hymgorffori yn y Datganiad Manylion a'r Cynllun Rheoli Basn Afon lle mae rhaid.

## **2.2 Themâu Trosfwaol**

### ***Safonau***

Dywedodd rhai ymatebwyr fod y newid yn y safonau rhwng cylchoedd yn anfon negeseuon dryslyd o ran cydymffurfio â phrif ofynion WFD. O ran y safonau ffosfforws, dywedwyd ei bod yn aneglur faint o bwysau ddylai gael eu rhoi iddynt a sut y byddant yn effeithio ar y

Cynllun Rheoli Basn Afon. Roedd pryder y gallai cyrraedd y targedau ar safleoedd Natura 2000 (N2K) effeithio ar raglenni gwaith WFD cydgyflawnwyr a bod yr ymgynghori ynglŷn â'r safonau hyn yn rhy hwyr.

### Ymateb

Mae rhai 'r safonau amgylcheddol a ddefnyddir i ddsbarthu cyrff dŵr ar draws y Deyrnas Unedig wedi cael eu diweddarau ers cynllun y cylch cyntaf (2009-2015). Ymgynghorodd Grŵp Cynghori Technegol y Deyrnas Unedig ar y rhain a'u cyhoeddi. Rydym yn disgwyl i'r rhain gael eu trosi'n Gyfarwyddiadau i'r Deyrnas Unedig yn yr hydref. Mae'r safonau hyn wedi newid am iddynt gael eu hintegreiddio'n well â'r safonau a ddefnyddir yng ngweddill Ewrop a bod gennym well dealltwriaeth wyddonol. Yn Adroddiad Cynnydd y Cylch Cyntaf a'r Cynllun Rheoli Basn Afon byddwn yn adrodd ar gynnydd ar sail safonau'r cylch cyntaf ac yn defnyddio'r safonau newydd ar gyfer cylch 2 (2015-2021) i sefydlu ein llinell sylfaen ar gyfer 2015.

Y paneli cyswllt a ofynnodd am y safonau ffosfforws ac fe ymatebon ni ym mis Chwefror 2015 gyda'r rheolau er pennu'r safonau hyn i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd a llynnoedd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a'r safonau arfaethedig i gyrff dŵr yr effeithir arnynt. Dywed canllawiau Defra/Llywodraeth Cymru ar gynllunio basn afon y dylem gymhwyso'r safon lymaf i'r corff dŵr neu ran o gorff dŵr sy'n ardal warchoddedig. Roedd y ddogfen yn amlinellu sut y byddwn yn pennu safonau ar sail Canllawiau Monitro Safonau Cyffredin y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur fel ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, yn ei gwneud yn gliriach pa safonau sy'n berthnasol ar lefel leol ac yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i gynllunio gwelliannau ansawdd dŵr yn well. Rydym wedi asesu a yw cyrff dŵr yn cydymffurfio â'r safonau diwygiedig arfaethedig. Mae tua thraean y cyrff dŵr sydd â data yn methu, ond mae mwyafrif y methiannau yn rhai bach (llai na 5µg/l). O ran afonydd, methodd 13 o 10-30µg/l a 3 o fwy na 30µg/l.

Mae llawer o'r cyrff dŵr hyn eisoes wedi'u nodi fel rhai sy'n methu o ran amcan WFD. Mae'r pwyntiau a wnaed am yr ymgynghoriad ynghylch y safonau ffosfforws wedi'u nodi. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid drwy'r Panelau Cyswllt i roi sylw i unrhyw gwestiynau ynglŷn â tharddiad y safonau a'u goblygiadau.

### ***Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth***

Dywedodd rhai sefydliadau mai prin yw'r costau yn erbyn camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth ac nad oes unrhyw awgrym sut y byddant yn bwydo i'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Roedd pryderon neilltuol nad oedd y costau hyn wedi'u hystyried yn y dadansoddiad economaidd a gyflwynwyd yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft gan iddo gael ei gyhoeddi cyn cynhyrchu rhai Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth a Chynlluniau Gwella Safle. Mae perygl felly nad yw rhai costau, a allai fod yn gostau mawr, wedi cael eu hystyried. Gallai fod goblygiadau i hyn wrth i'r Gweinidogion asesu fforddioldeb y Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol. Dywedwyd hefyd nad yw'r Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth yn datgan cyflwr nodweddig dynodedig.

O ran Ardal Basn Afon Dyfrdwy, tynnwyd sylw at y methiant i gyrraedd amcanion Natura 2000 fel y'u nodwyd yn y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf. Dywedwyd bod camau gweithredu nad ydynt yn weithredol eto a bod llawer o gamau gweithredu yn cael eu hailadrodd yn rhaglen fesurau WFD a'r Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth. Teimlid bod angen i'r Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol ddweud pam nad yw safleoedd Natura

2000 wedi cyrraedd Statws Cadwraeth Ffafirol a/neu pam nad yw'r camau gweithredu hyn wedi dod yn weithredol.

### Ymateb

Rydym yn cydnabod yr angen i integreiddio mwy ar wybodaeth am Ardaloedd Gwarchodedig wrth gynllunio a darparu'r Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol.

O ran y costiau yn y Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth, y gwaith a wnaed fel rhan o raglen LIFE Natura 2000 yw'r tro cyntaf i weithredu arfaethedig ar safleoedd Natura 2000 gael ei gostio ar draws y rhwydwaith. Yn ystod 2015, rydym yn ymgysylltu'n fewnol a gyda phartneriaid i wella'n dealltwriaeth o'r gweithredu a'r costau. Bydd y gwaith hwn yn parhau tan ddiwedd mis Awst. Ein nod yw cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddarau ar gamau gweithredu Natura 2000 a'u costau yn y Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol a gyflwynir i'r Gweinidog.

Drwy broses ymgysylltu LIFE Natura 2000, mae matrices sy'n cynnwys gwybodaeth am gyflwr pob nodwedd Natura 2000 ar y safle wedi cael ei rannu. Mae hwn yn cyfeirio at gyflwr pob nodwedd ddynodedig ar safle Natura 2000. Mae hyn yn wahanol i Statws Cadwraethol Ffafirol, sy'n cyfeirio at statws y nodwedd ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac yn cynnwys y safleoedd gwarchodedig a'r dirwedd ehangach. Caiff y data hwn ar Statws Cadwraethol Ffafirol yn y Deyrnas Unedig ei gyhoeddi ar-lein ar wefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.

### **Dosbarthiad**

Teimlai rhai ymatebwyr fod diffyg eglurder ynglŷn â pham mae corff dŵr yn waeth na da neu lle mae cyrff dŵr yn cael eu dosbarthu o'u cymharu â chyrff dŵr cyfagos. Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â nifer y cyrff dŵr lle mae'r rheswm am beidio â chyrraedd 'da' yn anhysbys. Teimlai eraill fod llawer o'r hyn sy'n ymddangos fel gwelliannau i'w briodoli mewn gwirionedd i newidiadau mewn dulliau yn hytrach na newid amgylcheddol gwirioneddol, ac y dylid cydnabod hyn wrth ddehongli canlyniadau. Mae pryderon fod y system dosbarthu pysgod yn rhy optimistaidd a bod angen ei hadolygu. Yn arbennig, mae rhai partneriaid yn ymddangos yn bryderus y bydd asesiadau gor-optimistaidd yn ei gwneud yn anodd cael arian ar gyfer prosiectau adfer cynefin.

### Ymateb

Caiff pob corff dŵr ei ddosbarthu drwy ddefnyddio asesiadau o nifer o elfennau. Drwy ddefnyddio data a gasglwyd am y corff dŵr dan sylw yn unig y cânt eu dosbarth - ni chânt eu dosbarthu o'u cymharu â'i gilydd. Lle nad yw corff dŵr yn cyrraedd statws da, caiff yr elfennau sy'n gyfrifol am y methiant eu nodi ar Gwarchod Dyfroedd Cymru. Lle mae corff dŵr yn methu cyrraedd 'da' Ymchwilir i'r rhesymau drwy gynnal ymchwiliadau safle. Cofnodir y rheswm fel un anhysbys nes bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau a gall y cofnod aros felly os na ddaw'r ymchwiliad i gasgliad pendant.

Wrth adrodd ar gynnydd mae angen inni ddatgan y rhesymau am y gwelliant neu'r dirywiad. Mewn llawer o achosion rydym yn cydnabod bod y ffordd rydyn ni'n casglu data, a'r safonau y caiff y data ei gymharu yn ei erbyn, yn gallu newid yn ystod y cylch cynllunio gan wneud cymariaethau'n anodd ar adegau. Yn yr achosion hyn mae'r rheswm sydd wedi'i' gofnodi am y methiant yn cael ei nodi'n ysgrifenedig. Caiff pob dull monitro ac offeryn dadansoddi data ei ddatblygu ar draws y Deyrnas Unedig gan grŵp cynghori technegol y Deyrnas Unedig. Caiff y dulliau a'r offerynnau eu hadolygu'n barhaus a bydd

sylwadau penodol a godir ynglŷn â'r offeryn dosbarthu pysgod yn cael eu cyfleu i weithgor priodol Grŵp Cynghori Technegol y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid drwy'r Panel Cyswllt i roi sylw i'r pryderon ynglŷn â dosbarthiad pysgod a byddwn yn rhannu ein dull gweithredu cyn anfon y Cynlluniau Rheoli Basn Afon terfynol at y Gweinidogion i'w cymeradwyo.

### **Carthu**

Dywedodd un ymatebydd nad yw carthu yn ei farn ef yn cael effaith ddrwg ar reoli afonydd a chredai ei fod yn cynyddu nifer y pysgod yn ôl pob golwg. Crybwyllodd hefyd fod llifogydd difrifol wedi cael eu hachosi gan rwystrau yn yr afon y mae angen eu clirio ac, yn gyffredinol, mae angen rhagor o waith cynnal a chadw.

### Ymateb

Mae gwaith cynnal a chadw mewn sianelau – gwaith fel carthu a gwneud y dŵr yn llai dwfn – yn parhau'n rhan bwysig o waith cynnal a chadw arferol Cyfoeth Naturiol Cymru. Targedir y gweithgaredd hwn at fannau lle mae modd ei gyfiawnhau ar sail perygl llifogydd a rhesymau economaidd ac amgylcheddol. Mae ymchwil wedi dangos y gall gwaith carthu fod yn fuddiol mewn rhai mannau ac o dan rai amgylchiadau. Fodd bynnag, rhaid ystyried yr effeithiau amgylcheddol a'r risg o greu mwy o berygl llifogydd ymhellach i lawr yr afon oherwydd y gweithrediadau hyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mor effeithlon ac effeithiol â phosib.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu er budd y cyhoedd i atal rhwystrau, megis coed wedi disgyn, ar gyrsiau Prif Afonydd lle mae hynny'n golygu eu bod yn achosi perygl llifogydd i bobl ac eiddo. Mae hyn yn digwydd fel arfer pan gaiff coed a gweddillion eu dal ar groesfa pont. Cyfrifoldeb perchennog yr ased neu berchennog glannau'r afon yw cynnal a chadw'i asedau yn y lle cyntaf.

### **Pethau wedi'u Heggwr**

Soniodd rhai ymatebwyr fod diffyg cydnabyddiaeth yn y Cynllun Rheoli Basn Afon o'r gwaith y mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi'i wneud a'r potensial i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio'n agos gyda nhw. Teimlai rhai y gellid bod wedi dweud mwy am Barthau Gwarchod Dŵr Yfed a Pharthau Diogelu. Teimlid hefyd y dylai fod mwy o bwyslais ar blaleiddiaid, yn arbennig yr angen i annog eu defnyddio'n effeithiol. Roedd diffyg cyfeirio hefyd at lawlyfr 'DeePol' ar ddigwyddiadau llygru yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Teimlai un ymatebydd nad oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i sylwadau roedden nhw wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau.

### Ymateb

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthfawrogi ac yn ystyried pob ymateb a gawn i'n hymgyngoriadau ac rydym yn gweithredu arnynt lle mae hynny'n bosibl. Rydym yn ymddiheuro os ydym wedi methu rhywbeth neu heb egluro pam nad yw rhywbeth wedi'i ymgorffori. Mae'r pwyntiau a wnaed wedi'u nodi a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod y Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol yn cael ei adolygu yn unol â hynny.

### **Monitro**

Cododd nifer o ymatebwyr eu pryderon y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wneud mwy yn hytrach na llai o fonitro ar sail WFD a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd.

### Ymateb

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhesymoli ein rhaglen fonitro lle mae hynny'n briodol er mwyn gallu canolbwyntio ar yr hanfodion, ac edrych ar ffyrdd arloesol o gynyddu ein gwybodaeth. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth cyrff eraill lle mae'n addas ac yn ateb ein hanghenion. Bydd ein hadolygiad o'r gwaith monitro yn sicrhau ei fod yn effeithlon, yn addas i'w ddiben a'i fod yn cyflawni gofynion y Cyfarwyddbau perthnasol. Bydd monitro cyrff dŵr lle mae risgiau amlwg a lle mae mesurau ar waith i wella statws yn flaenoriaeth; felly hefyd darparu'r wybodaeth honno i'n partneriaid.

### ***Coedwigaeth/Coetir***

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod diffyg pwyslais ar rôl fuddiol coed, a chyfeiriwyd yn arbennig at y ffordd y mae coedwigoedd a choetiroedd yn help i liniaru llifogydd. Nodwyd hefyd y buddion o ran llai o bridd a llygryddion eraill yn mynd i mewn a'r budd cyffredinol o ran seilwaith gwyrdd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, gwerth tirweddol, a phrosesau dŵr a gwastraff. Hefyd, dywedwyd nad oedd y cynllun yn cysylltu plannu coed â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Bryfed Peillio.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod cost isel plannu coed yn cymharu'n ffafriol â mesurau eraill ond nodwyd yr angen am arian a gweithlu medrus i wireddu'r buddion hyn. Teimlid y dylai creu coetir gael ei gynnwys yn benodol yn y mesurau.

### **Ymateb**

Mae'r pwyntiau a wnaed wedi'u nodi a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod y Cynllun Rheoli Basn Afon terfynol yn cynnwys cyfeiriad at fanteision creu coetir, yn cynnwys coetiroedd cynhyrchiol, ac yn cysylltu hyn â lliniaru llifogydd. Byddwn yn ystyried sut y gallem ymgorffori plannu coed yn y mesurau. Rydym yn cydnabod bod angen cryfhau'r sylfaen tystiolaeth ynglŷn â defnyddio plannu coed ar gyfer buddion ecosystem ehangach a'r angen am weithlu medrus er mwyn gwireddu'r buddion hyn.

### ***Asesu Mesurau Lliniaru (HMWB)***

Teimlai un ymatebydd fod anghysondebau rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ymdrin â mesurau lliniaru i'r sector porthladdoedd a harbyrau. Hefyd, nad oedd y gweithredu sy'n ofynnol gan y sector hwnnw yn glir.

### **Ymateb**

Rydym yn deall y pryderon a godwyd. Byddwn yn trafod y rhain yn fanylach gyda'r sector porthladdoedd a harbyrau ac Asiantaeth yr Amgylchedd i gael cysondeb ac eglurder lle mae'n bosibl yn yr Ardaloedd Basn Afon a rennir.

### ***Ymgysylltu***

Teimlai rhai ymatebwyr fod angen gwneud mwy i gynnwys pobl ar lefel leol. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn ymwybodol o'r gweithdai dalgyrch a gynhaliwyd gennym yn 2014. Teimlid fod angen ymgysylltu lleol â'r gymuned ffermio i gynnig cyngor ac arweiniad ar welliannau rheoli tir. Crybwyllwyd y dylai fod strwythur cyflawni ac iddo ffocws lleol yng Nghymru i helpu i ysgogi a hwyluso cyflawni wedi'i gyd-drefnu ar lefel leol, ac eithrio lle mae rhai cyrff anllywodraethol wedi bwrw iddi o'u pen a'u pastwn eu hunain yn barod.

### **Ymateb**

Rydym yn diweddarau'n rhestr rhanddeiliaid yn rheolaidd yn sgil pob ymgynghoriad a chyfle ymgysylltu, a bydd pawb sydd wedi ymateb neu wedi dod i unrhyw ddigwyddiadau yn y gorffennol ar ein rhestr. Rydym yn cydnabod manteision gweithio gyda rhanddeiliaid ar



lefel fwy lleol ac wrth symud ymlaen gyda'n timau 'lle penodol' rydym yn gobeithio cael mwy o gyfle i weithio gyda grwpiau ac unigolion lleol i gyflawni mwy o welliannau i'r amgylchedd.

### ***Môr-lynnoedd llanw***

Teimlai un ymatebydd nad oedd y cynlluniau'n ystyried y potensial i ddatblygu prosiectau môr-lynnoedd llanw yn y chwe blynedd nesaf a'r gwelliannau posibl o ran amddiffyn yr arfordir, ansawdd dŵr a chreu cynefin a allai gyfrannu at welliannau i'r amgylchedd dŵr. Awgrymwyd y dylai fod cysylltiad rhwng mesurau'r Cynllun Rheoli Basn Afon a sialensiau a chyfleoedd posibl y datblygiadau hyn, ac nad oes mecanwaith i gyd-drefnu ac ymdrin â phrosiectau a allai ddylanwadu ar fwy nag un ardal basn afon.

### **Ymateb**

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd yn yr ymateb a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r ymatebydd o fewn y grwpiau dwyochrol presennol sydd wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'u pryderon. Rydym yn cydnabod bod môr-lynnoedd llanw yn gallu cynnig rhai manteision ond dylid nodi hefyd y gall datblygiadau o'r math hwn achosi dirywiad o ran Statws Ecolegol WFD a gwrthdaro â mesurau lliniaru ar gyfer cyrff dŵr wedi'u haddasu'n sylweddol (HMWB), ac y bydd arnynt angen asesiad rhanddirymiad felly o dan Erthygl 4.7.

Y Broses Gynllunio yw'r mecanwaith ar gyfer delio ag ystyriaethau o'r fath a gall weithredu hefyd fel fforwm i drafod pryderon trawsffiniol a phryderon sy'n pontio ardaloedd basn afon. Dylid nodi, yn niffyg cynllun cenedlaethol ar gyfer datblygiadau amrediad llanw, ei bod yn anodd ystyried cynlluniau o'r math hwn yn llawn yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyn iddynt gael eu hadeiladu. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio blaenoriaethu mesurau a fyddai'n gydnaws â chynnig am forlyn llanw os oes digon o hyder y caiff y datblygiad ei godi.

### ***WFD a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol***

Teimlai rhai ymatebwyr fod diffyg eglurder ynglŷn â rôl y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) er cyflawni Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD). Yn arbennig, tynnwyd sylw at y ffaith fod angen darparu gwybodaeth ar sut y bydd y mesurau i gyflawni amcanion WFD yn cyfrannu at amcanion MSFD. Codwyd y pwynt hefyd fod angen rhagor o wybodaeth am y berthynas rhwng y gweithgareddau monitro.

### **Ymateb**

Er bod gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng WFD ac MSFD wedi'i darparu yn yr Atodiad Trosolwg Cynllunio adran 2.2.3 gyda chyfeiriadau at wybodaeth bellach, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y maes polisi hwn i randdeiliaid ac yn cydnabod nad yw wedi'i gynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft. Byddwn yn ymdrechu i dynnu sylw at y maes polisi pwysig hwn yn y cynlluniau terfynol ac yn darparu manylion pellach pan wneir cais am hynny. Gallwn ddweud yma fod holl raglenni monitro Cyfoeth Naturiol Cymru o dan WFD yn cyfrannu tuag at asesiad MSFD o Statws Amgylcheddol Da, yn enwedig o ran y disgrifyddion llygryddion, ewtroffigedd ac elfennau arwyddocaol o'r disgrifyddion biolegol.

### ***Safonau pysgod cregyn/Cemegion***

Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd digon o sylw'n cael ei roi i bryderon Morydol ac Arfordirol yn y cynlluniau a'r dogfennau crynodeb. Nodai rhai sylwadau fod angen gwell dealltwriaeth o lygredd gwasgaredig o'r dalgylch i'r arfordir, a gwell rheolaeth arno. Teimlid nad oedd

digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i fuddion posibl pysgodfeydd cregyn. Tynnodd dau ymatebydd sylw at yr angen i roi mwy o bwyslais ar gyrraedd statws cemegol yn yr amgylchedd morol, yn arbennig gan gyfeirio at Cadmiwm, Mercwri a chemegau sy'n dechrau ymddangos. Pwysleisiwyd fod gofyn cysoni amcanion, dulliau rheoli a graddfa ddaearyddol y dynodiadau sy'n berthnasol i'r diwydiant.

### Ymateb

Mae trosglwyddo gofynion deddfwriaethol o'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi peri i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgysylltu ymhellach â'r Diwydiant Pysgod Cregyn a Physgodfeydd ac mae'n croesawu'r mewnbwn ychwanegol hwn gan randdeiliaid. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda'r Diwydiant Pysgod Cregyn, academia a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ymchwilio a sefydlu mesurau angenrheidiol yn ôl gofynion WFD yng nghyswllt y pryderon sydd wedi'u mynegi ynglŷn â chemegion yn yr amgylchedd morydol ac arfordirol a allai effeithio ar y Diwydiannau Pysgod Cregyn a Physgodfeydd.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio o fewn Grŵp Partneriaeth Dyfroedd Pysgod Cregyn Cymru i hyrwyddo rheolaeth ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer magu pysgod cregyn a sicrhau eu bod yn cael eu cysoni'n amserol. Y pwysau mwyaf cyffredin ar ddyfroedd Morydol ac Arfordirol yw hydromorffoleg, maethynnau a chemegion, a'r rhain yn deillio'n bennaf o'r dalgylch. Y ffordd orau o'u rheoli felly yw drwy weithredu ar sail dalgylch. Dyna'r rheswm pam mae'r crynodebau dalgylch wedi'u sefydlu ar sail 'dalgylch i'r arfordir'. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi sylw i'r adborth ar yr angen am grynodedd morol wrth inni ystyried unrhyw ddatblygu pellach ar y dogfennau.

### **Gweithio gyda'n Gilydd**

Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddent yn hoffi gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i roi gwelliannau ar waith mewn ffordd wedi'i chyd-drefnu ar lawr gwlad. Dywedodd un ymatebydd y gallai fod cyfleoedd i rannu data a chynnyrch modelu lle mae'n briodol i helpu'r gwaith cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys sectorau fel y Diwydiant Dŵr, y Sector Amaethyddiaeth, y Sector Coedwigaeth, Ymddiriedolaethau Afon, Ymddiriedolaethau Natur, Clybiau Pysgota Lleol, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn ogystal â rhai unigolion.

### Ymateb

Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gydol yr ail gylch gydag amrywiaeth eang o sectorau ac unigolion er mwyn gwreiddo gwelliannau pellach i'r amgylchedd dŵr.

### **Ymatebion Lleol**

Cawsom nifer o ymatebion unigol yn codi pryderon penodol am yr amgylchedd dŵr yn eu hardal nhw. Mae'r rhain wedi cael eu trosglwyddo i'n cydweithwyr gweithredol iddyn nhw roi sylw iddynt gyda hyn.

## **3 Y Camau Nesaf**

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygu a chyflawni'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon diweddaedig a gyhoeddir ar ein gwefan ar 22 Rhagfyr 2015.

Bydd y cynlluniau'n nodi'r materion strategol sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr yn yr Ardaloedd Basn Afon a'r gweithredu sydd wedi'i gynllunio i'w amddiffyn a'i wella rhwng

2016 a 2021. Mae gwaith Cynllunio Basn Afon yn esblygu'n barhaus wrth i'r amgylchedd, ynghyd â'n gwybodaeth gyfun ni a'n dulliau gweithredu, newid. Mae'r cynlluniau diweddedig yn gyfle i adolygu ble rydyn ni wedi cyrraedd ac i ble rydyn ni am fynd.

I gyflawni'r gwelliannau hoffem ddweud ein bod yn cydnabod bod rhaid canfod atebion newydd cynaliadwy, cydgysylltiedig. Yng Nghymru bydd y cynigion ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) yn help inni ganolbwyntio ar ddull mwy integredig o ymdrin â rheoli adnoddau naturiol, gan edrych ar achosion gwaelodol problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ganfod atebion priodol. Ein nod i'r Ardaloedd Basn Afon yw nid dim ond cyflawni gofynion WFD, ond integreiddio'r cynllunio a'r cyflawni amcanion mewn Ardaloedd Gwarchoddedig lle mae'n bosibl. Rydym hefyd am gyd-drefnu a chysylltu ein gwaith cynllunio a chyflawni o dan WFD gyda'n gwaith yn gweithredu'r Gyfarwyddeb Llifogydd.

Ni allwn gyflawni'r amcanion angenrheidiol drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau yn unig – mae angen inni weithio gyda'n partneriaid i rannu arbenigedd a datblygu canlyniadau cyffredin y gall pawb ohonom weithio tuag atynt. Rhaid i reolwyr tir, ffermydd, busnesau, diwydiant, cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cynllunwyr, cyrff llywodraethol, cyrff anllywodraethol ac unigolion ymrwymo i newid ein perthynas â dŵr a'r amgylchedd y mae'n ei gynnal.

Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r cyfrwng i roi'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar waith. Bydd gan y Paneli Cyswllt rôl i'w chwarae, ac ar lefel leol bydd yna ddulliau dalgylch, prosiectau partneriaeth a gwaith traws sector. Rydym yn falch gweld o'r ymatebion fod nifer o unigolion a sefydliadau wedi rhoi'u cefnogaeth i'r Cynllun, ac rydym yn croesawu'u parodrwydd i helpu i gyflawni'r gwelliannau i'r amgylchedd dŵr. Edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw dros y blynyddoedd i ddod i ddatblygu syniadau, cynlluniau gweithredu ac atebion ymhellach.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar ein gwefan.

Neu gallwch gysylltu â:

**Ceri Jones, Rheolwr y Rhaglen Basn Afon, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 OTP**

Ebost [wfdwales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:wfdwales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Ffôn 03000654529

Mae gofynion diogelu data yn ein hatal rhag enwi unigolion nad ydynt wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu cyhoeddi. Mae copi o'r ymatebion ar gael drwy ofyn.

## Atodiad 1 – Cyfarfodydd a Gweithdai

Digwyddiad	Sector	Nifer yn bresennol	Dull gwaith
Gweithdy Ymgysylltu Mehefin 2014	Dŵr Cymru Cadwch Gymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Natur	14	Rhannu a datblygu syniadau o ran cyfleu a hyrwyddo'r ymgynghoriad.

Digwyddiad	Sector	Nifer yn bresennol	Dull gwaith
Gweithdy Panel Cyswllt Cymru Gyfan Gorffennaf 2014	Amrywiol	21	Cyfrannu i'r dogfennau ymgynghorol, rhoi arweiniad o ran y cwestiynau ymgynghori a sut i ymdrin â'r crynodebau dalgylch.  Datblygu syniadau o ran cyfleu a hyrwyddo 'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon diweddedig a'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.
Hydref 2014 Panel Cyswllt Hafren	Amrywiol	15	Adolygu cynnydd a pharatoi ar gyfer yr ymgynghoriad.
Hydref 2014 Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol	Awdurdodau Lleol	12	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Hydref 2014 Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Diwydiant dŵr	10	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Hydref 2014 Cyfarfod Panel Cyswllt Dyfrdwy	Amrywiol	14	Rhoddodd y panel adborth ar y materion y dylid yn ei farn ef canolbwyntio arnynt yn ystod yr ymgynghoriad, pwy all helpu a'r offerynnau cyfathrebu ychwanegol sy'n ofynnol i gefnogi'r ymgynghoriad. Darparwyd rhestr o ddigwyddiadau i'r dyfodol y gellir eu defnyddio i hyrwyddo'r ymgynghoriad.
Hydref 2014 Cyfarfod Panel Cyswllt Gorllewin Cymru	Amrywiol	15	Yr un fath ag uchod.
Hydref 2014 Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru	Cadwraeth		Erthygl yng nghylchlythyr Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru yn hyrwyddo ymgynghoriadau'r Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.
Tachwedd 2014 Fforwm Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru	Amrywiol	30	Canolbwyntiodd y digwyddiad ar bynciau perthnasol i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen ymchwiliadau dŵr yfed Dŵr Cymru, Prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol Dyfrdwy, a throsolwg o ddatblygiadau ynni dŵr yng Nghymru.
Tachwedd 2014 Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Panel Cyswllt	Amrywiol	15	Grŵp i drafod blaenoriaethu, cynllun cyflawni, tracio mesurau.
Tachwedd 2014 Fforwm Rheoli Tir Gwledig Cymru	Rheoli Tir Gwledig	19	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Tachwedd 2014 CIWEM	Amrywiol		Anfon neges i hyrwyddo lansio ymgynghoriad y Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.
Rhagfyr 2014 Fforwm Ynni'r Deyrnas Unedig	Busnes a Diwydiant	7	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.

Digwyddiad	Sector	Nifer yn bresennol	Dull gwaith
Rhagfyr 2014 Partneriaeth Dyfrdwy Ganol	Amrywiol	13	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2104 Partneriaeth Dyfrdwy Lanwol	Amrywiol	11	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2104 Cyfarfod Cyswllt Gweithrediadau Dŵr Cymru – Gorllewin	Diwydiant dŵr	8	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2014 Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy, Clwyd a Gwynedd	Cadwraeth	12	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2014 Fforwm Diwydiant Dŵr Cymru	Diwydiant dŵr	16	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2014 Grwpiau Pysgodfeydd Lleol Taf, Wysg a Gwy	Pysgodfeydd	40	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2014 gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Cadwraeth		Erthygl yn y Daily Post yn hyrwyddo Prosiect Tirwedd Fyw Alyn a Chwiler.
Rhagfyr 2014 Cyfarfod Cyswllt Gweithrediadau – Dwyrain	Diwydiant dŵr	9	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Rhagfyr 2014 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	Cadwraeth	30	Neges yn hyrwyddo lansio'r ymgynghoriad wedi'i hanfon at y bartneriaeth. Ymddangosodd yr ymgynghoriad ar e- gylchlythyr misol y Bartneriaeth am ddau fis. Fe'i rhoddwyd hefyd ar dudalen Dŵr Croyw gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.
Ionawr 2015 Cyfarfod Lleol Undeb Amaethwyr Cymru	Rheoli Tir Gwledig	2	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a thrafod ei nod.
Ionawr 2015 Grwpiau Pysgodfeydd Lleol Gŵyr a Gorllewin Cymru	Pysgodfeydd	38	Neges yn hyrwyddo'r ymgynghoriad wedi'i anfon at aelodau'r grŵp.
Ionawr 2015 Gweithdy'r Panel Cyswllt	Amrywiol	16	Adolygu cynnydd yr ymgynghoriad.
Ionawr 2015 Grŵp Pysgodfeydd Mewndirol	Pysgodfeydd	15	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a darparu papur briffio ar Bysgod Cregyn.
Ionawr 2015 Grŵp Pysgodfeydd Canol	Pysgodfeydd	15	Gweler uchod.
Ionawr 2015 Cyfarfod IEAP	Amrywiol	16	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad.

Digwyddiad	Sector	Nifer yn bresennol	Dull gwaith
Ionawr 2015 5 Grŵp Awdurdodau Perthnasol o fewn Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro	Morol	75	Neges yn hyrwyddo'r ymgynghoriad wedi'i hanfon at aelodau'r grŵp.
Ionawr 2015 Bionet Gogledd-ddwyrain Cymru	Cadwraeth	67	Manylion yr ymgynghoriad wedi'u hanfon at yr aelodau.
Ionawr 2015 Fforwm Mynediad Cenedlaethol	Hamdden	40 grŵp	Manylion yr ymgynghoriad wedi'u hanfon at grwpiau'r Fforwm.
Ionawr 2015 Partneriaeth Gwy	Cadwraeth	15	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Ionawr 2015 Grŵp Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro	Rheoli Tir Gwledig		Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Ionawr 2015 Fforwm Amgylchedd Sir Benfro	Amrywiol	8	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Chwefror 2015 Grŵp Cynghori Gogledd Cymru ar Ffermio a Bywyd Gwyllt	Rheoli Tir Gwledig/ Cadwraeth	33	Manylion yr ymgynghoriad wedi'u hanfon i'r grŵp.
Chwefror 2015 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	Cadwraeth	30	Neges atgoffa wedi'i hanfon i aelodau'r grŵp.
Chwefror 2015 Gweithdy Morwedd a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Morol	Morol	40	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Chwefror 2015 Grŵp Pysgodfeydd Mewndirol y Gogledd	Pysgodfeydd	15	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Chwefror 2015 Grŵp Defnydd Tir a Bioamrywiaeth Cyswllt Amgylchedd Cymru	Cadwraeth	10	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Chwefror 2015 Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gâr	Cadwraeth	25	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Chwefror 2015 Undeb Amaethwyr Cymru	Rheoli Tir Gwledig	20	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Chwefror 2015 Cymdeithas Awdurdodau Draenio Cymru	Rheoli Tir Gwledig	11	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015	Pysgodfeydd	1	Trafod y mesurau presennol ac

Digwyddiad	Sector	Nifer yn bresennol	Dull gwaith
Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor			arfaethedig ar gyfer pob Dŵr Cregyn Gleision a sicrhau ymateb.
Mawrth 2015 Fforwm Arfordir Sir Benfro	Amrywiol	19	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
March 2015 Cynhadledd Llynnoedd	Amrywiol	50	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Gweithdy Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol	Morol	32	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Grŵp Pysgodfeydd Lleol Dyfrdwy a Chlwyd	Pysgodfeydd	12	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Grŵp Pysgodfeydd Lleol Gwynedd a Chonwy	Pysgodfeydd	16	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Partneriaeth Dyfrdwy Ganol	Amrywiol	35	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Grŵp Cynghori Strategol Morol Cymru	Morol	35	Darparwyd papur briffio ar statws cyrff dŵr arfordirol a morydol. Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Cynhadledd Dŵr Mwyngloddiau	Mwyngloddio	40	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Panel Cyswllt Dyfrdwy	Amrywiol	18	Diweddariad cynnydd.
Mawrth 2015 Panel Cyswllt Gorllewin Cymru	Amrywiol	16	Diweddariad cynnydd.
Mawrth 2015 Fforwm Pysgod Cregyn Cymru	Pysgodfeydd	8	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Digwyddiad Cyswllt y Diwydiant Coed	Busnes a Diwydiant	75	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
Mawrth 2015 Cymdeithas Pysgodfeydd Cymru	Pysgodfeydd	1	Codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.

## Atodiad 2 – Rhestr ymatebwyr

ENW	SECTOR	Ardal Basn Afon
Sefydliad Tir Gwyllt Cymru	Cadwraeth	Cymru gyfan
Grŵp Ecosystem Ucheldir Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	Cadwraeth	Cymru gyfan
Tidal Lagoon Power	Mordwyo	Cymru gyfan
Undeb Amaethwyr Cymru	Amaethyddiaeth	Cymru gyfan
Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru	Diwydiant dŵr	Cymru gyfan
Natural England	Cadwraeth	Dyfrdwy
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Cadwraeth	Dyfrdwy
Fforwm Arfordirol y Gogledd-orllewin	Mordwyo	Dyfrdwy
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	Rheoli Tir	Dyfrdwy
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Diwydiant dŵr	Dyfrdwy
Partneriaeth Dyfrdwy Ganol a Lanwol	Cadwraeth	Dyfrdwy
Dŵr Cymru Welsh Water	Diwydiant dŵr	Dyfrdwy
Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru	Cadwraeth	Dyfrdwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Awdurdod Lleol	Dyfrdwy
Y Gymdeithas Atal Llifogydd	Rheoli Tir	Dyfrdwy
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	Amaethyddiaeth	Dyfrdwy
Parc Cenedlaethol Eryri	Cadwraeth a Hamdden	Dyfrdwy
United Utilities	Diwydiant dŵr	Dyfrdwy
Coed Cadw	Coedwigaeth	Dyfrdwy
Yr Awdurdod Glo	Mwyngloddio	Dyfrdwy
Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig	Coedwigaeth	Dyfrdwy
Confor	Coedwigaeth	Dyfrdwy
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Busnes/Diwydiant	Dyfrdwy
Energy UK	Busnes/Diwydiant	Dyfrdwy
NRW (SEA)	Cadwraeth a Hamdden	Dyfrdwy
Cyngor Sir y Fflint	Awdurdod Lleol	Dyfrdwy
Chwe Ymateb Unigol	Eang eu cwmpas	Dyfrdwy
Prifysgol Dundee	Academia	Gorllewin Cymru
Coed Cadw	Coedwigaeth	Gorllewin Cymru
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Diwydiant dŵr	Gorllewin Cymru
Parc Cenedlaethol Eryri	Cadwraeth a Hamdden	Gorllewin Cymru
Dŵr Cymru Welsh Water	Diwydiant dŵr	Gorllewin Cymru
Afonydd Cymru	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
NFU Cymru	Amaethyddiaeth	Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Natur Cymru	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Fforymau Mynediad Gogledd a De	Hamdden	Gorllewin Cymru



<b>ENW</b>	<b>SECTOR</b>	<b>Ardal Basn Afon</b>
Eryri		
Cymdeithas Genweirwyr Sir Benfro	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Yr Awdurdod Glo	Mwyngloddio	Gorllewin Cymru
Clwb Pysgota Cwm Afan	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cyngor Sir Gwynedd	Awdurdod Lleol	Gorllewin Cymru
Grŵp Cynghori Rhanbarthol ACA Morol Sir Benfro	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaethau Natur Sir Benfro	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Pysgota Tregaron	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Planed	Rheoli Tir	Gorllewin Cymru
Grŵp Cynghori Rhanbarthol Safle Morol Bae Caerfyrddin	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig	Coedwigaeth	Gorllewin Cymru
Confor	Coedwigaeth	Gorllewin Cymru
Prince Albert Angling Association	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Energy UK	Busnes/Diwydiant	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	Rheoli Tir	Gorllewin Cymru
Associated British Ports	Mordwyo	Gorllewin Cymru
Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Pembrokeshire Wildfowl Association	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cyngor Sir Penfro	Awdurdod Lleol	Gorllewin Cymru
Y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Milford Haven Surveillance Group	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Awdurdod Lleol	Gorllewin Cymru
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Busnes/Diwydiant	Gorllewin Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Awdurdod Lleol	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Pysgotwyr Cymru	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
NRW (SEA)	Cadwraeth a Hamdden	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Pysgota Llandysul	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
28 Ymateb Unigol	Eang eu cwmpas	Gorllewin Cymru



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw